# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymraeg 2050 ac S4C

# 1 Cynnwys

2 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng S4C a Chymraeg 2050 .......... 2
2.1 Diben .......... 2
2.2 Prif Themâu Cydweithredu .......... 3
2.3 Sail y Memorandwm hwn: *Cymraeg 2050* .......... 4
3 Ein huchelgais cyffredin .......... 5
3.1 Adnoddau Addysgiadol .......... 5
3.2 Cefnogi'r rheini sy'n dysgu'r Gymraeg neu'n gwella eu sgiliau iaith neu fagu hyder [gan gynnwys technoleg a'r Gymraeg] .......... 6
3.3 Datblygu a defnyddio naratif gadarnhaol am ein hiaith, gan gynnwys cydweithio ar ddefnydd anffurfiol o'n hiaith (e.e. drwy gydweithredu ar ddatblygu gwaith MIWSIG a Dydd Miwsig Cymru) a siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru .. 7
3.4 Trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau gan dargedu siaradwyr 25-44 mlwydd oed .......... 8
3.5 Ystadegau a data am y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg gan gynnwys 'personas' (neu gymeriadau) siaradwyr Cymraeg .......... 8
4 Ymrwymiadau cyflawni .......... 9
5 Tymor ac Adolygu'r Memorandwm .......... 11
6 Y Partïon .......... 11

# 2 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng S4C a Chymraeg 2050

## 2.1 Diben

Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn (Y Memorandwm) yw amlinellu'r cytundeb partneriaeth rhwng Cymraeg 2050, Isadran o Lywodraeth Cymru, ac S4C, y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg.

Wrth ei wraidd mae gweledigaeth gyffredin ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a sicrhau dyfodol ffyniannus i'n hiaith drwy gydweithio mewn sawl maes.

Rydym yn gytûn bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd a bod gan y ddau sefydliad gyfrifoldeb am ei dyfodol. Byddwn yn cydweithio, felly, i wireddu nodau *Cymraeg 2050*. Mae hyn yn adlewyrchu datganiadau diweddar Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ac yn arwydd o athroniaeth gynnes, groesawgar *Cymraeg 2050* sydd â'r amcan o helpu mwy o bobl i ddysgu a/neu ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn

nhw—hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi gwneud hynny ers tro. Mae hefyd yn ategu strategaeth S4C o adlewyrchu'r Gymru sydd ohoni a chreu cynnwys beiddgar sy'n rhoi cyfle i gynulleidfaoedd i glywed y Gymraeg ar wahanol lwyfannau a sicrhau ffyniant ein hiaith.

Y Memorandwm hwn yw'r cam diweddaraf yn y broses o ffurfioli partneriaethau hirdymor rhwng Llywodraeth Cymru ac S4C ym maes polisi iaith. Ei fwriad yw adeiladu ar y canlynol:

- y berthynas gadarnhaol gyfredol rhwng y ddau barti.
- aelodaeth hir sefydledig S4C o Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg (y mae *Cymraeg 2050* yn ei gydlynu).
- y cysylltiadau cryfach rhwng y ddau sefydliad yn dilyn llofnodi *Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru Greadigol ac S4C.*
- Setliad ffi'r drwydded S4C, Ionawr 2022, ac ymateb yn uniongyrchol i argymhelliad 3 adroddiad annibynnol Euryn Ogwen Williams, *Creu S4C ar gyfer y dyfodol*, sef:

> *Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.*

Isod, rydyn ni'n amlinellu sut y bydd y ddau barti yn cydweithio'n strategol i sicrhau cynnydd yn y defnydd o'n hiaith.

## 2.2 Prif Themâu Cydweithredu

Dyma'r prif themâu y byddwn ni'n cydweithredu arnyn nhw wrth i ni ddechrau rhoi'r Memorandwm hwn ar waith. Byddwn ni'n gweithio'n hyblyg ac yn edrych ar ddulliau newydd o gydweithio'n effeithiol i sicrhau hyn. Byddwn ni'n adolygu ac yn addasu'r rhestr hon yn flynyddol wrth i ni ddiweddaru'r Memorandwm:

- Adnoddau Addysgiadol
- Cefnogi'r rheini sy'n dysgu'r Gymraeg neu'n gwella eu sgiliau iaith a magu hyder [gan gynnwys technoleg a'r Gymraeg]
- Datblygu a defnyddio naratif gadarnhaol am ein hiaith, gan gynnwys cydweithio ar ddefnydd anffurfiol o'n hiaith (e.e. drwy gydweithredu ar ddatblygu gwaith MIWSIG a Dydd Miwsig Cymru) a siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru
- Trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau gan dargedu siaradwyr 25-44 mlwydd oed
- Ystadegau a data am y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg gan gynnwys 'personas' (neu gymeriadau) siaradwyr Cymraeg

Mae'r Memorandwm yn gwahaniaethu rhwng rôl arweiniol Cymraeg 2050 o ran ei chyfrifoldeb dros strategaeth *Cymraeg 2050* a'i rhaglenni gwaith cysylltiedig, a rôl statudol S4C fel corff cyhoeddus nad yw wedi'i ddatganoli, gydag annibyniaeth olygyddol a gweithredol a pherthynas ar wahân ag Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y DU.

Mae manylion Y Memorandwm hwn yn cael eu hamlinellu mewn dwy brif ran. Mae'r gyntaf yn nodi meysydd cyd-weithio'r partneriaid i gyflawni amcanion cyffredin Cymraeg 2050 ac S4C. Mae'r ail yn amlinellu ymrwymiad y gwahanol bartneriaid i gyflawni gweithgareddau a chanlyniadau penodol.

## 2.3 Sail y Memorandwm hwn: *Cymraeg 2050*

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* yn 2017.

Mae gweledigaeth y strategaeth fel a ganlyn:

> *"Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.*

Dau darged 'pennawd' *Cymraeg 2050* yw:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

Mae i *Cymraeg 2050* dair thema strategol, a'r tair yn berthnasol i'r Memorandwm hwn.

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol—seilwaith a chyd-destun

Bydd y ddau barti'n gweithio'n agos i sicrhau bod buddsoddiadau a gwaith perthnasol yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Memorandwm hwn, wrth hefyd gydnabod yr angen am eithriadau ac annibyniaeth S4C fel sefydliad.

Fel a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru Greadigol ac S4C, byddwn ni'n gweithio tuag at sicrhau ein bod ni'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi'n gwahanol uchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn y strategaeth *Cymraeg 2050* […] a darparu gwasanaethau a chynnwys Cymraeg sy'n diddanu, yn addysgu ac yn ysbrydoli cynulleidfaoedd ynghylch ein hiaith—o siaradwyr newydd i'r rhai sydd eisoes yn siarad Cymraeg;
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n cefnogi gwasanaethau newyddion a newyddiaduraeth amryfal yn y Gymraeg, ar draws amrediad o blatfformau.

Er mwyn hyrwyddo amcanion Y Memorandwm hwn, byddwn ni'n cydgysylltu'n gweithgareddau â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a rhanddeiliaid perthnasol (er enghraifft, drwy Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg y mae Cymraeg 2050 yn ei gydlynu a'r sefydliadau sy'n aelodau ohono).

Byddwn ni'n sicrhau bod gwaith partneriaeth rheolaidd yn mynd rhagddo, mewn modd strwythuredig, i ategu'r gwaith o gyflawni'r Memorandwm hwn. Bydd hyn yn cynnwys cwrdd yn ffurfiol bob chwarter i gynllunio'r cydweithio a'r blaenoriaethau, adolygu cynnydd a chytuno ar gamau gweithredu a rennir a chamau gweithredu sy'n benodol i bartneriaid.

## 3 Ein huchelgais cyffredin

Bydd ein gwaith partneriaeth yn cael ei arwain gan uchelgais a gweledigaeth strategaeth *Cymraeg 2050* y mae'r ddau barti yn ei rhannu fel sydd wedi ei gadarnhau yn setliad ffi'r drwydded S4C fis Ionawr 2022. Dyma fanylu ar y meysydd gweithredu ar gyfer Y Memorandwm hwn:

### 3.1 Adnoddau Addysgiadol

Mae cynnwys S4C eisoes yn cael ei ddefnyddio fel adnodd addysgiadol, boed hynny'n ffurfiol e.e. manylebau cyrsiau TGAU a Safon Uwch neu drwy ddysgu anffurfiol. Drwy drwyddedau ERA (Educational Recording Agency) mae peth cynnwys S4C ar gael ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru ac mae ambell adnodd addysgiadol wedi ei greu gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru o gwmpas rhaglenni penodol e.e. yn achos y gyfres hanes i blant Amser Maith Maith yn Ôl (2020).

Byddwn ni'n cydweithio i adnabod a llenwi'r bylchau mewn cynnwys addysgol i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau yng Nghymru a, lle bo'n berthnasol, cymwysterau eraill hefyd gan weithio gyda'r cwmni newydd Adnodd sydd wrthi'n cael ei sefydlu. Byddwn ni'n rhannu gwybodaeth gyda'n gilydd yn rheolaidd am

anghenion a bwriadau comisiynu a byddwn ni'n ystyried deunyddiau addysgol wrth gomisiynu rhaglenni newydd.

Dan arweinyddiaeth Swyddog Addysg newydd S4C, byddwn ni hefyd yn edrych ar wneud y defnydd gorau o gynnwys rhaglenni cyfredol a chynnwys o'r archif, ac yn eu gwneud ar gael lle bo modd ar gyfer defnydd ysgolion, dysgwyr a rhieni, gan ystyried anghenion dysgu ychwanegol a gofynion hygyrchedd. Byddwn ni'n codi ymwybyddiaeth ymysg cyhoeddwyr, cwmnïau teledu annibynnol a darparwyr cynnwys addysgol eraill o'r angen i gydweithio a rhannu cynnwys er mwyn creu adnoddau a deunyddiau ategol ar gyfer y cwricwlwm a chymwysterau.

## 3.2 Cefnogi'r rheini sy'n dysgu'r Gymraeg neu'n gwella eu sgiliau iaith neu fagu hyder [gan gynnwys technoleg a'r Gymraeg]

Yn ôl data diweddaraf y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae bron 15,000 o oedolion wrthi'n dysgu'r Gymraeg. Cynyddodd y niferoedd sy'n dysgu'n hiaith yn ystod cyfnod COVID-19 gyda phobl yn manteisio ar ddarpariaeth ar-lein newydd y Ganolfan Dysgu.

Byddwn ni'n cydweithio i sicrhau bod yr holl waith i gefnogi'r rheini o bob oedran sy'n dysgu'r Gymraeg, yn gwella eu caffael ohoni, neu sy'n awyddus i gynyddu eu hyder yn y Gymraeg, yn cael ei gyd-gysylltu yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl. Gallai hyn olygu sicrhau bod deunydd S4C ar gael mewn ffordd hwylus i ddysgwyr (yn oedolion ac mewn lleoliadau addysg) a chymorth i gynyddu ymwybyddiaeth i'r deunyddiau a chyfresi perthnasol S4C e.e. Iaith ar Daith. Byddwn ni'n rhoi sylw arbennig ar gydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrth iddynt ddatblygu cynlluniau ac adnoddau newydd ar gyfer dysgu'r Gymraeg i'r oedran 16-25.

Byddwn ni'n sicrhau cydweithio rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac S4C fel bod anghenion dysgwyr yn cael eu hystyried wrth gynllunio darpariaeth, a hefyd i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cyfeirio at ddeunydd addas ar S4C a all gynorthwyo eu dysgu. Byddwn ni hefyd yn cydweithio i sicrhau bod adnoddau ychwanegol yn cael eu creu gan Y Ganolfan i gefnogi dysgwyr neu siaradwyr llai hyderus fel y gallan nhw ddod i weithio yn y sector sgrin Gymraeg. Bydd ein cydweithredu hefyd yn ymwneud â gwaith arall a nodir yn y Memorandwm hwn, e.e. trosglwyddo'r Gymraeg rhwng rhieni a'u plant, ac adnoddau addysgiadol.

*Technoleg a'r Gymraeg*
Mae llawer o ddatblygu wedi bod ar dechnoleg i'n cefnogi ni i ddefnyddio'n hiaith dros y blynyddoedd diweddar, a llawer o'r datblygiadau'n deillio o *Gynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg* Llywodraeth Cymru. Athroniaeth y cynllun hwnnw yw lle bo'r Llywodraeth yn talu am gydrannau technoleg iaith, y byddan nhw'n cael eu rhyddhau yn rhad ac am ddim o dan drwydded agored addas. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at gyfleusterau adnabod lleferydd Cymraeg a chyfieithu awtomatig. Byddwn ni'n cydweithredu er mwyn rhoi'r rhain ar waith a'u gwella drwy ddefnyddio

archif sylweddol S4C o ddeunyddiau. Nod hyn fyddai gweithio tuag at, er enghraifft, is-deitlo awtomatig ar raglenni Cymraeg fydd yn gwella hygyrchedd i wylwyr o bob oed ac yn adnodd defnyddiol i'r rhai sy'n dysgu'r iaith.

## 3.3 Datblygu a defnyddio naratif gadarnhaol am ein hiaith, gan gynnwys cydweithio ar ddefnydd anffurfiol o'n hiaith (e.e. drwy gydweithredu ar ddatblygu gwaith MIWSIG a Dydd Miwsig Cymru) a siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru

Fel rhan o'r egwyddor bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, mae'n bwysig, lle bynnag y byddwn ni'n trafod ein hiaith a'r defnydd ohoni, ein bod ni'n gwneud hynny mewn llais cyson. Mae Cymraeg 2050 wedi datblygu 'Llais y Gymraeg' ac yn defnyddio'r llais hwn i ddenu pobl at y Gymraeg—neu, os nad yw wedi bod yn rhan o'u bywyd ers tro, yn ôl ati, ymhlith pethau eraill. Byddwn ni hefyd yn trafod ein hiaith mewn ffordd sy'n meithrin gallu a hyder siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd wrthi'n dysgu i ddefnyddio eu Cymraeg. Pwysleisiwn nad rhywbeth i'w defnyddio wrth siarad yn Gymraeg am *bethau eraill* mo naratif o'r fath—ond yn ffordd o siarad *am y Gymraeg* gyda naratif gynnes, gyfeillgar a chynhwysol sy'n berthnasol i'r gynulleidfa rydyn ni am ei chyrraedd. Bydd Cymraeg 2050 yn rhannu'r arfer gorau yma gydag S4C ac yn cefnogi'r sector gynhyrchu i'w ddefnyddio hefyd i greu cynnwys sydd yn apelio at y gynulleidfa darged mewn cydweithrediad gydag Arweinydd Strategaeth y Gymraeg S4C.

Ac wrth i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen gyda'r gwaith o gydlynu adnoddau terminoleg, bydd y ddau barti'n cydweithio i sicrhau ymwybyddiaeth a defnydd eang o derminoleg safonol Cymraeg. Ni fydd hyn yn effeithio ar rôl ac annibyniaeth olygyddol S4C, ond yn hytrach yn adnodd i'r sector sgrin er mwyn cefnogi'r defnydd o Gymraeg clir y bydd y gynulleidfa yn ei deall.

*Defnydd Anffurfiol*
Byddwn ni'n archwilio sut y gallwn ni ddefnyddio digwyddiadau a sefyllfaoedd anffurfiol e.e. rhai cerddorol o dan ein dylanwad i greu cyfalaf cymdeithasol yn y Gymraeg. Gan fod mwyafrif siaradwyr Cymraeg ieuengaf bellach wedi dechrau dysgu siarad yr iaith yn yr ysgol, byddwn ni'n cydweithio i weld sut y gallwn ni roi gwedd anffurfiol tu allan i'r ysgol fel eu bod yn cael profiadau cadarnhaol drwy'r Gymraeg heb fod yn gysylltiedig â'r system addysg. Fel rhan o hyn, byddwn ni'n edrych sut y mae cynnwys llwyddiannus S4C fel Hansh a Lŵp yn cynnig ffyrdd i'r garfan hon i ddefnyddio ac ymwneud â'r iaith.

*Siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru*
Rydym yn nodi bod traean gwylio cynnwys S4C ar S4C Clic a'r iPlayer yn dod o'r tu hwnt i Gymru a bod siaradwyr Cymraeg yn mudo, ond am gadw cysylltiad gyda'r iaith. Lle bo'n briodol felly, byddwn ni'n cydweithio i sicrhau ein bod ni'n hyrwyddo cynnwys Cymraeg ymysg y Cymry ar wasgar. Yn ogystal, byddwn ni'n defnyddio'n data ynghylch y Gymraeg a'r Cymry ar wasgar i hyrwyddo gwahanol gynnyrch y

Memorandwm hwn i'r Cymry ledled y byd. Byddwn ni hefyd yn defnyddio'n rhwydwaith o gysylltiadau busnes, gan gynnwys ein cenhadon, i helpu i wneud cysylltiadau a chefnogi ymdrechion i dyfu rhwydwaith rhyngwladol S4C a thrwy hynny i godi proffil y Gymraeg yn rhyngwladol.

## 3.4 Trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau gan dargedu siaradwyr 25-44 mlwydd oed

Mae'r rhan fwyaf ohonon ni'n dysgu'n geiriau cyntaf ac yn eu siarad drwy wrando a dilyn arferion ein teuluoedd. Yn hanesyddol, y teulu oedd lle'r oedd y rhan fwyaf o bobl yn dysgu'r Gymraeg. Mae Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 yn dangos bod mwyafrif helaeth (69%) y siaradwyr Cymraeg 3-15 oed wedi dechrau dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol.[1] Rydyn ni'n gwybod o ymchwil arall nad yw'r holl siaradwyr Cymraeg newydd hyn o reidrwydd yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant eu hunain nes ymlaen yn eu bywydau (er eu bod, o bosibl, yn sicrhau bod y plant hynny yn derbyn addysg Gymraeg).[2]

Mae arolygon ystadegol yn dangos yn glir bod y rhai sydd wedi caffael y Gymraeg ar yr aelwyd yn defnyddio'r iaith yn amlach na'r rhai sydd wedi ei dysgu mewn unrhyw ffordd arall. Drwy siarad, neu 'drosglwyddo' y Gymraeg i'w plant yn y teulu, gall rhieni a gofalwyr roi sylfaen gadarn i ddatblygiad ieithyddol eu plant. Byddwn ni'n cydweithio, felly, i gyfrannu at gynyddu trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref yng nghyd-destun *Polisi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd*. Nod ein cydweithio fydd galluogi i'r teuluoedd hynny lle mae gallu eisoes i ddefnyddio'r Gymraeg—er efallai nad yw'r gallu hwnnw ar waith—i ddefnyddio pa Gymraeg bynnag sydd ganddyn nhw â'u plant.

Hwn fydd un o'n meysydd cydweithredu pwysicaf oherwydd wrth i fwy o bobl ifanc ddod yn siaradwyr Cymraeg drwy'r system addysg, bydd mwy o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg. Ac felly bydd mwy o gartrefi ag o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg. Pan fydd y 'siaradwyr newydd' hyn yn cael eu plant eu hunain, rydyn ni am iddyn nhw deimlo'n gyfforddus i siarad Cymraeg gyda nhw yn eu cartrefi a'r tu hwnt. Gall cynnwys S4C—o Cyw i Stwnsh, Hansh, a chynnwys oedolion—chwarae rhan bwysig o ran galluogi hyn. Byddwn ni'n cydweithio i weld sut mae modd gwneud mwy o ddefnydd o'r cynnwys yma a'i hyrwyddo gyda'r gynulleidfa darged.

## 3.5 Ystadegau a data am y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg gan gynnwys 'personas' (neu gymeriadau) siaradwyr Cymraeg

1 Llywodraeth Cymru (2021), *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru (canfyddiadau cychwynnol): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 (diwygiedig)*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru (canfyddiadau cychwynnol): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020*.
2 Llywodraeth Cymru (2017), *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddau barti'n casglu llawer o fanylion ystadegol ar wahân o ran y Gymraeg, gan gynnwys hyder siaradwyr wrth ei defnyddio, eu defnydd ohoni ac agweddau tuag ati. Byddwn ni'n dehongli'r rhain ar y cyd, gan ddechrau gyda chanlyniadau Cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd yn ddiweddar.[3] Byddwn ni hefyd yn dadansoddi'r ystadegau sydd ar gael i ddeall pwy allai fod yn siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol a sut, pryd, ble a pha mor aml y gallen nhw ddefnyddio eu hiaith, pa gynnwys neu adnoddau gwylio yr hoffent ei gael—a beth yw goblygiadau hyn ar gyfer gwaith y ddau barti.

Un agwedd yn unig ar ddeall gallu a defnydd iaith yw ystadegau. O ddydd i ddydd, mae amrywiaeth ieithyddol ar draws ein gwlad yn sylweddol. Er enghraifft, i rai ohonon ni, mae'r Gymraeg yn iaith rydyn ni'n ei defnyddio bob dydd oherwydd mai dyna iaith ein gwaith a/neu'r cartref a'r gymuned rydyn ni'n byw ynddyn nhw. I eraill, rydyn ni'n ei defnyddio mewn rhwydweithiau mewn ardaloedd lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn is. Mae'r profiad mae siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg yn ei gael o'n hiaith a'r cyfleoedd i'w defnyddio hefyd yn amrywio. Bydd datblygu a rhannu 'personas' (cymeriadau ffug sy'n seiliedig ar ymchwil, ystadegau a phrofiadau) gyda'n gilydd a'u defnyddio wrth i ni gynllunio'n gwaith yn gymorth i ni ddeall nodau, anghenion a phrofiadau siaradwyr Cymraeg o wahanol fathau.

## 4 Ymrwymiadau cyflawni

**Mae S4C yn ymrwymo i wneud y canlynol:**

- Parhau i gomisiynu a darparu cynnwys o ansawdd uchel sy'n rhoi cyfle i glywed y Gymraeg ac sy'n cyfrannu at gaffael, trosglwyddo a defnydd o'r Gymraeg;
- Cefnogi a chydweithio ar brosiectau caffael iaith penodol e.e. fel y cynllun Croeso Cyw y cafwyd peilot ohono yn Sir Gâr yn ddiweddar;
- Datblygu ein gwasanaeth i siaradwyr newydd mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac arbenigwyr eraill i sicrhau bod cynnwys S4C sy'n cefnogi'r rhai sy'n dysgu Cymraeg, yn adlewyrchu'r Gymru sydd ohoni ac yn cefnogi taith ieithyddol pobl. Bydd hyn yn cael ei weithredu gan Arweinydd Strategaeth y Gymraeg S4C, rôl newydd fydd yn pontio rhwng S4C a'r Ganolfan, ac yn gyfrifol am gynnwys traws-lwyfannol i gefnogi dysgu Cymraeg;
- Defnyddio casgliadau gwaith Llais y Gymraeg i gyfrannu at greu llais newydd i S4C mewn Cymraeg clir, cynhwysol fydd yn cael ei ddefnyddio yn ein cynnwys a chan y sector annibynnol sy'n creu cynnwys i S4C;
- Parhau a dyfnhau'r berthynas gyda nifer o'r sefydliadau mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â nhw e.e. drwy Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg;
- Cefnogi gwaith adnabod lleferydd ac is-deitlo Cymraeg gyda'r bwriad bod cynnwys Cymraeg yn hygyrch ac yn dod yn hawdd i'w ddefnyddio gan bawb;

3 Llywodraeth Cymru (2022), *Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

- Galluogi a hwyluso defnyddio cynnwys S4C a sicrhau ei fod yn hawdd i'w ganfod mewn addysg e.e. Hwb ac adnoddau addysgiadol eraill, dan arweinyddiaeth Swyddog Addysg S4C (sydd yn rôl newydd);
- Ystadegau a data—cydweithio ar ymchwil a gwaith i gyrraedd cynulleidfaoedd a'r defnydd o'r Gymraeg o ran arferion gwylio;
- Mynd â'r Gymraeg i'r byd—cefnogi'r gwaith o godi proffil ein hiaith yn rhyngwladol drwy gynnwys S4C a chyfleoedd cyd-gynhyrchu;
- Drwy ei strategaethau sgiliau, ac amrywiaeth a chynhwysiant, bydd S4C yn sicrhau cyfleoedd i bobl o bob cefndir i ddod i weithio yn y Gymraeg;
- Byddwn ni'n sefydlu grŵp ar y cyd â Chymraeg 2050 i weithredu'r Memorandwm hwn.

**Mae Cymraeg 2050 yn ymrwymo i wneud y canlynol:**

- Gweithio ochr yn ochr ag S4C ac eraill wrth i ni weithredu'n *Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd.* Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiadau ystadegol newydd o gyfansoddiad ieithyddol teuluoedd a goblygiadau hynny ar gyfer gwaith y ddau barti yng nghyd-destun *Cymraeg 2050*. Bydd hefyd yn cynnwys gwaith yn y gwyddorau ymddygiadol y byddwn yn seilio'n holl ymwneud ni yn y maes arno. Nod y gwaith hwn fydd galluogi i'r rhieni hynny a allai ddefnyddio eu Cymraeg, ond nad ydynt am ba reswm bynnag yn gwneud hynny, ddefnyddio eu Cymraeg â'u plant.
- Byddwn ni'n creu rhaglen newydd o waith ieuenctid i gynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg. Byddwn ni'n cydweithio ar agweddau perthnasol ar hyn gydag S4C lle bo'n briodol, e.e.  gwaith i greu cyfalaf cymdeithasol drwy gerddoriaeth. Gallai hyn hefyd gynnwys edrych ar agweddau a phrofiad disgyblion a chyn-ddisgyblion o'r Gymraeg a'u canfyddiadau ohonynt.
- Byddwn ni'n cydweithredu i gyfrannu at ein sylfaen gwybodaeth am allu a defnydd o'n hiaith drwy ddadansoddi a dehongli, yn y lle cyntaf, canlyniadau Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg.
- Cydweithredu ag S4C a'r sector creu cynnwys ar naratif yn ymwneud â'n hiaith gan rannu mewnweliadau a gwersi a ddysgir o roi'r naratif ar waith.
- Byddwn ni'n cydweithio ag S4C i sicrhau bod y sector cynhyrchu yn gwybod am ffynonellau o derminoleg safonol Cymraeg wrth iddynt greu cynnwys
- Byddwn ni'n cymryd rhan mewn trafodaethau a gwaith perthnasol yng nghyd-destun partneriaeth S4C â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Wrth i ni ddatblygu'n gwaith ym maes technoleg a'r Gymraeg, byddwn ni'n gwahodd S4C i gydweithio gyda ni lle bo'n berthnasol. Lle bo modd, byddwn ni hefyd yn cydweithio gydag S4C i wahodd iddyn nhw brofi technoleg newydd y byddwn ni'n ei chreu neu'n ei hariannu.

- Byddwn ni'n cydweithio gydag S4C ar adnoddau addysgiadol Cymraeg perthnasol gan gynnwys drwy'r corff newydd Adnodd sydd wrthi'n cael ei sefydlu.
- Ystadegau a data: cydweithio ar ymchwil a gwaith i gyrraedd cynulleidfaoedd a'r defnydd o'r Gymraeg.
- Cefnogi S4C wrth iddi barhau a dyfnhau'r berthynas gyda nifer o'r sefydliadau mae Cymraeg 2050 yn eu hariannu a e.e. drwy Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg.
- Byddwn ni'n gweithio gydag adrannau ehangach Llywodraeth Cymru i sicrhau dull cyd-gysylltiedig o weithio gydag S4C i gefnogi blaenoriaethau strategol *Cymraeg 2050*.
- Byddwn ni'n sefydlu grŵp ar y cyd ag S4C i weithredu'r Memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn.

## 5 Tymor ac Adolygu'r Memorandwm

Mae'r cytundeb partneriaeth hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Chwefror 2023 a mis Mai 2026, gydag adolygiad ffurfiol ar ddiwedd y 12 mis cyntaf. Rydyn ni'n rhagweld y bydd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio fel y bo'n briodol i'w adnewyddu ar ddiwedd yr ail flwyddyn am gyfnod arall.

Bydd y gwaith a amlinellir yn Y Memorandwm hwn yn cael ei fonitro a'i drafod yn chwarterol er mwyn sicrhau cynnydd ar yr ymrwymiadau cyflawni.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw hwn ac ni fwriedir iddo fod yn gyfreithiol rwymol. Mae'r ddau barti wedi ymrwymo i gyflawni'r uchelgeisiau a rennir; fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle nad yw hynny'n bosibl.

## 6 Y Partïon

**S4C**

S4C yw'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg. Cafodd ei lansio ym 1982. Mae'n cyhoeddi cynnwys ar-lein, ar ei chwaraeydd S4C Clic, ar deledu llinellol, drwy ei ap Newyddion ac ar iPlayer. Mae S4C yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o adlewyrchu diwylliant a chymdeithas Cymru a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae S4C yn ddarlledwr comisiynu ac yn buddsoddi mewn cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol ledled Cymru. Ers mis Ebrill 2022, daw ei chyllid cyhoeddus i gyd o ffi'r drwydded deledu.

**Cymraeg 2050**

Mae Cymraeg 2050 yn isadran Cyfarwyddiaeth Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru. Mae'n gyfrifol am gydlynu gweithgarwch o dan strategaeth *Cymraeg 2050* a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn 2017. Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru, sy'n gyfrifol am y gwaith hwn.

Llofnodwyr i’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn:

**Siân Doyle**
**Prif Weithredwr, S4C**

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru**